The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Nodyn o'r cyfarfod

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod ffeil** | EN020015 |
| **Prosiect** | Cysylltiad Gogledd Cymru |
| **Statws** | **Terfynol** |
| **Awdur** | Hefin Jones |
| **Dyddiad** | 12 Ionawr 2018 |
| **Cyfarfod â** | National Grid |
| **Lleoliad** | Temple Quay House, Bryste |
| **Yn bresennol** | **Yr Arolygiaeth Gynllunio**<br>Chris White – Arweinydd Cynllunio Seilwaith<br>Tracey Williams – Rheolwr Achos<br>Hefin Jones – Rheolwr Achos<br>Hannah Pratt - Uwch Gynghorydd AEA a Hawliau Tir<br>Alison Down - Cynghorydd AEA a Hawliau Tir<br>**National Grid**<br>Jacqui Fenn – Uwch Swyddog Caniatadau<br>Jacqueline Stoddart – Arweinydd Tiroedd<br>Catrin Owen – Swyddog Caniatadau |
| **Amcanion y cyfarfod** | Diweddariad ar y prosiect |
| **Cylchrediad** | Pawb a oedd yn bresennol |

**Cyflwyniad**

Cyflwynodd National Grid (yr Ymgeisydd) a'r Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) eu hunain a'u rolau priodol. Cyflwynwyd Hefin Jones fel rheolwr achos dwyieithog newydd y prosiect. Cyflwynwyd Jacqueline Stoddart fel Arweinydd Tiroedd newydd yr Ymgeisydd a chadarnhawyd fod Ken Guest, nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod, wedi'i benodi'n ddiweddar fel y Rheolwr Caniatâd Datblygu (DCO) newydd.

Amlinellodd yr Arolygiaeth ei pholisi ar fod yn agored a sicrhawyd fod y sawl a oedd yn bresennol yn deall y bydd unrhyw faterion a drafodir a chyngor a roddir yn cael eu cofnodi a'u gosod ar wefan yr Arolygiaeth o dan a51 Deddf Cynllunio 2008 (DC2008). Ar ben hynny, eglurwyd na fydd unrhyw gyngor a roddir yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallai'r Cyngor (neu eraill) ddibynnu arno.

**Diweddariad ar y Prosiect**

Ers y cyfarfod blaenorol ym mis Medi 2017, mae'r Ymgeisydd wedi bod mewn trafodaethau â thirfeddianwyr ac wedi cynnal adolygiad o ddogfennau. Mae'r Datganiad Amgylcheddol drafft a gofynion drafft y Gorchymyn Caniatâd Datblygu yn y broses o gael eu rhannu â'r

awdurdodau lleol (Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd), Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r Gwasanaethau Brys. Disgwylir ymatebion erbyn diwedd mis Mawrth.

Er mwyn i'r Ymgeisydd ystyried ymatebion yr ymgynghoriad yn llawn, mae'n debygol erbyn hyn y bydd y cais yn cael ei gyflwyno ar ddiwedd mis Mehefin 2018.

**Cynnydd ar Ddatganiadau Tir Cyffredin**

Mae'r Ymgeisydd wrthi'n drafftio Datganiadau Tir Cyffredin gyda rhanddeiliaid. Cynghorodd yr Arolygiaeth yr Ymgeisydd i ystyried llunio dogfen ddull cyffredin yn debyg i'r hyn a ddefnyddiwyd yng nghais Richborough; cadarnhaodd yr Ymgeisydd fod gwaith ar y gweill i wneud hynny.

**Cyflwyno adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer ei adolygu**

Cadarnhaodd yr Ymgeisydd fod yr adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar ffurf ddrafft ac ar gam datblygedig; bydd y drafft terfynol yn cael ei rannu â rhanddeiliaid technegol ar 9 Chwefror 2018. Cadarnhaodd yr Arolygiaeth y byddai'n darparu sylwadau gweithdrefnol ar y ddogfen erbyn canol mis Mawrth 2018.

**Diweddariad ar gyfieithu dogfennau i'r Gymraeg**

Dywedodd yr Ymgeisydd eu bod wedi dod i gytundeb â Horizon o ran mabwysiadu dull cyson o gyflwyno dogfennau dwyieithog. Rhannwyd y dull hwn â'r ddau awdurdod lleol ac mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi darparu eu cytundeb ysgrifenedig i'r dull.

Cynghorodd yr Arolygiaeth yr Ymgeisydd y bydd o fudd iddynt sicrhau y bydd aelod o'u tîm sy'n siarad Cymraeg yn bresennol yn y Cyfarfod Rhagarweiniol a'r sesiynau gwrandawiad i ymateb i unrhyw ymholiadau gan y cyfryngau.

**Diweddariad gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar yr Archwiliad/lleoliadau**

Dywedodd yr Arolygiaeth fod ystyriaeth wedi'i roi i leoliadau addas ar gyfer y Cyfarfod Rhagarweiniol a'r gwrandawiadau. Dywedodd y bydd Horizon yn ymweld â lleoliad posibl (Maes Sioe Môn) yn fuan er mwyn asesu ei addasrwydd ar gyfer prosiect Wylfa Newydd (dyma un o nifer o leoliadau posibl sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd). Bydd yr Ymgeisydd yn gweithio'n agos â Horizon ar y mater hwn.

Hefyd, mae'r Arolygiaeth yn debygol o ystyried cynnal sesiynau gwrandawiad llawr agored mewn lleoliadau eraill yn Ynys Môn a Gwynedd. Bydd y mater hwn yn cael ei ystyried ymhellach yn nes at ddyddiad cyflwyno'r cais.

Cadarnhaodd yr Ymgeisydd fod trafodaethau eisoes wedi cychwyn gyda chwmnïau sain a chyfieithu. Bydd y trefniadau'n cael eu cwblhau maes o law.

Gofynnodd yr Ymgeisydd a fyddai tywydd gwael yn cael ei ystyried wrth lunio amserlen yr Archwiliad a chadarnhaodd yr Arolygiaeth fod hyn yn rhywbeth a fydd yn cael ei ystyried.

**Unrhyw Fusnes Arall**

Hysbysodd yr Arolygiaeth yr Ymgeisydd am y cynnydd mewn ffioedd, a ddaw i rym o fis Ebrill 2018. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd ei fod eisoes yn ymwybodol o hyn ac wedi cyfrifo'n unol â hynny.

Bydd yr Ymgeisydd yn cysylltu â'r Arolygiaeth i drefnu cyfarfodydd telegynadledda misol pellach, a chyfarfod wyneb i wyneb cyn cyflwyno'r cais. Mae'n bosibl y ceir cais am gyfarfod wyneb i wyneb hefyd rhwng yr Arolygiaeth, National Grid a Horizon mewn perthynas â logisteg y gwrandawiad a'r Cyfarfod Rhagarweiniol.